**Adroddiad ar**

**Gylch Meithrin Mornant**

**Ysgol Cymraeg Mornant**
**Picton Road**
**Picton**
**Penyffordd, Treffynnon**
**CH8 9JQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Mornant

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Mornant |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Michelle Brooks-Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Michelle Brooks-Jones |
| Nifer y lleoedd | 28 |
| Amrediad oedran y plant | 2 oed i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 21 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 9 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 11:30 i 3:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor yn unig |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mai 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mai 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 03/05/2022 |
| Nid oes un plentyn yn siarad Cymraeg fel y brif iaith ar yr aelwyd. | |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau. Ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r person cofrestredig roi sylw iddynt.

## Argymhellion

A1 Gwella'r profiadau o ran hyrwyddo dealltwriaeth y plant o wahanol ddiwylliannau

A2 Gwella'r ddarpariaeth a'r defnydd o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A3 Sicrhau cysondeb yn y broses o oruchwylio a gwerthuso staff

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae llais cryf gan y plant ac maent yn gwneud penderfyniadau da ynghylch eu chwarae. Maent yn gwybod bod eu lleisiau yn cael eu clywed gan oedolion ac maent yn gweithredu ar eu dymuniadau. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr wedi datblygu caban tywod yn yr ardal allanol ar ôl i'r plant fynegi eu hoffter o chwarae gyda thywod tu mewn i'r adeilad.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd yn eiddgar ac yn ymdopi'n arbennig o dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn llunio ymlyniadau emosiynol cadarnhaol gydag ymarferwyr a phlant eraill ac yn sylwi'n syth os yw un o'u ffrindiau yn absennol. Mae'r rhan fwyaf yn cyd-chwarae'n frwdfrydig gyda'i gilydd. Maent yn cydweithredu yn hollol briodol ac yn cymryd eu tro yn dda iawn. Er enghraifft, mae plant yn cydweithio'n ddiffwdan wrth adeiladu tŵr gyda 10 bloc bach, ac yn derbyn cyngor perthnasol gan eu ffrindiau. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau cymdeithasu da ac maent yn mwynhau sgwrsio'n hamddenol yn ystod amser cinio am benblwyddi eu rhieni a'u gwyliau sydd ar y gorwel.

Mae bron bob un plentyn yn hapus iawn yn y lleoliad. Maent yn gyffrous wrth ymgymryd â'u gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn mwynhau chwarae rôl yn y ardal byd bach a'r siop lysiau ac maent wrth eu boddau yn prynu llysiau, coginio cawl a'i fwyta yn yr ardal gartref. Maent yn chwerthin yn uchel wrth wylio cywion bach a hwyaid yn neidio i mewn i ddŵr ac maent yn mwynhau disgrifio'r cywion bach gyda geiriau fel 'melyn, meddal a fflwfflyd'.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos agwedd bositif tuag at eu chwarae a'u dysgu ac maent yn mwynhau trafod lliwiau bwydydd gwahanol fel cig pinc, wrth iddynt fwyta eu cinio. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod dyddiau'r wythnos yn dda ac maent yn gallu disgrifio'r tywydd yn gywir. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn dechrau ystyried a deall sut i gymryd risgiau yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r cerbydau a'r beiciau yn hyderus iawn ar y buarth ac yn ymdopi'n dda wrth yrru ar lethrau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gyfarwydd iawn â'r drefn ddyddiol ac mae bron bob un yn gwybod bod angen golchi dwylo yn drwyadl wrth gyrraedd a chyn eistedd wrth y bwrdd ar gyfer amser cylch. Maent yn symud yn hyderus ac yn annibynnol o un ardal chwarae i'r llall gan ddewis teganau ac offer priodol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn tywallt eu diodydd eu hunain yn effeithlon ac maent yn hyderus wrth adnabod eu sêr personol yn ystod yr adeg hunangofrestru. Yn ogystal, maent yn adnabod eu cotiau a'u bagiau yn rhwydd. Mae'r arferion hyn yn ysgogi'r plant i gymryd cyfrifoldeb am eu heiddo ac maent yn hybu eu hannibyniaeth yn effeithiol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn chwarae gyda'i gilydd yn bwrpasol ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn datblygu hyder wrth gymhwyso ystod eang o fedrau, sy'n effeithio'n llwyddiannus ar eu dysgu a'u medrau gwybyddol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n astud ac yn gweithredu arnynt yn gynhyrchiol. Maent yn cyfathrebu'n glir â'i gilydd wrth ymgymryd â chyfnodau o chwarae creadigol estynedig. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau'n ddiwyd yn yr ardal adeiladu wrth ddefnyddio cymysgydd sment a blociau tri-dimensiwn i godi wal. Maent yn ymateb i drafodaethau a chwestiynau ymarferwyr yn ddeallus, fel ystyried pa liwiau sydd eu hangen arnynt i beintio enfys.

Mae hyder y rhan fwyaf o blant wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn datblygu'n briodol. Maent yn mwynhau ymuno â rhigymau cyfarwydd, ac yn deall geirfa gynyddol. Er enghraifft, maent yn disgrifio synau anifeiliaid y fferm yn gywir ac yn ymateb yn awyddus i gerddoriaeth fel canu'n frwd am ddyddiau'r wythnos.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau trafod llyfrau ac maent yn ymgysylltu â storïau yn eiddgar, gan eistedd gyda'i gilydd i fwynhau'r lluniau a thrafodaethau am y stori. Maent yn ymateb â diddordeb i gymeriadau gwahanol ac yn ystyried canlyniadau digwyddiadau'n feddylgar, fel ymateb â rhyfeddod am helyntion trychinebus a digrif unigolyn ar y fferm.

Yn ystod eu chwarae, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud marciau'n fwriadus gyda chyfryngau gwahanol fel sialc a phaent. Maent yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar ac maent yn gwneud nodiadau yn y swyddfa chwarae rôl yn ystyrlon a chymharu nodweddion hwyaid a chywion trwy ddarlunio'n ofalus. O ganlyniad, maent yn mwynhau eu profiadau llythrennedd cynnar ac yn esbonio pwrpas eu hysgrifennu'n fwriadus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn ddeallus ac mewn cyd-destunau cywir. Mae ganddynt fedrau rhifedd da ac maent yn mwynhau chwarae ag ystod eang o offer mathemategol. Maent yn cyfrif i ddeg yn gywir gyda'i gilydd, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o'r berthynas rhwng rhifau a grwpiau o wrthrychau. Maent yn dechrau adnabod gwahanol siapiau ac yn trafod nifer yr ochrau yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datrys problemau'n effeithiol, fel gweithio gyda'i gilydd i bysgota gyda magnedau am greaduriaid penodol yn y môr. Yn ogystal, maent yn arbrofi â chyfeintiau llawn a gwag yn bwrpasol trwy lenwi jygiau cyn tywallt dŵr i gafnau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) boddhaol trwy ddefnyddio'r cyfleoedd prin sydd ar gael iddynt, fel rheoli cyfeiriad teithio lori electronig. O ganlyniad, maent yn ymgyfarwyddo'n ddigonol â'r dechnoleg trwy ddefnyddio'r cyfarpar yn achlysurol yn eu gweithgareddau dyddiol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol llwyddiannus trwy yrru beiciau, dawnsio a dringo ar gyfarpar anturus. Maent yn datblygu medrau meddwl a chreadigol pwrpasol, sy'n effeithio'n gadarn ar eu dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio hecsagonau a phentagonau yn hyderus i greu dilyniannau diddorol ar flwch golau a chynllunio tŷ ar fwrdd du â sialc yn yr ardal adeiladu.

**Gofal a datblygiad:**

Mae’r ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch ac iechyd y plant yn effeithiol. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob un o’r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu perthnasol a diweddar. O ganlyniad, maent yn gyfarwydd â’r polisi amddiffyn plant ac yn gallu ateb cwestiynau am ddiogelu yn hyderus.

Mae’r ymarferwyr yn gyfarwydd iawn â gweithdrefnau iechyd a diogelwch y lleoliad ac maent yn eu dilyn yn drwyadl er mwyn cadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Maent wedi mynychu hyfforddiant priodol fel cymorth cyntaf a hylendid bwyd ac maent yn goruchwylio plant yn ofalus. Mae'r ymarferwyr yn sychu’r byrddau’n drwyadl ac maent yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo’n aml.

Mae’r ymarferwyr yn cynnig amrywiaeth o fwydydd iach i’r plant yn ystod amser byrbryd, fel cracers a ffrwythau, ac maent yn atgoffa’r plant o bwysigrwydd bwyta’n iach. Maent yn cofnodi damweiniau ac anafiadau yn briodol ac yn sicrhau bod rhieni’n llofnodi’r cofnod yn unol â’r polisi, sydd yn arfer dda. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd pwrpasol i ddefnyddio’r ardal tu allan ar gyfer gweithgareddau corfforol fel cicio a thaflu peli a phlannu planhigion.

Mae’r ymarferwyr yn casglu llawer o wybodaeth am y plant er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’u hanghenion, eu galluoedd a’u diddordebau unigol. Mae’r ymarferwyr yn caniatáu i blant gymryd risgiau diogel yn unol â’u diddordebau ac mae'r athroniaeth hon yn effeithio’n gadarnhaol ar les a datblygiad y plant.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn trin plant yn gydradd ac yn dathlu achlysuron fel Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen yn effeithiol. Fodd bynnag, prin yw'r adnoddau i hybu gwerthoedd aml-ddiwylliannol ymysg y plant ac nid yw’r ymarferwyr yn gwneud y defnydd gorau o’r adnoddau hyn.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol ac maent yn gosod ffiniau cadarn mewn ffyrdd teg. Maent yn canmol y plant yn aml ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hunanhyder. Maent yn garedig ac addfwyn wrth siarad â’r plant ac, o ganlyniad, maent yn creu awyrgylch hamddenol. Mae llawer o’r ymarferwyr yn rhyngweithio’n dda iawn gyda’r plant. Maent yn annog plant i ddiffinio ac arwain eu chwarae eu hunain ac maent yn ymyrryd yn ddoeth i osgoi unrhyw anghytuno ymysg y plant. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau i gefnogi unrhyw blentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae addysgu’r ymarferwyr yn effeithiol ac yn ysgogi’r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau pwrpasol. Mae dulliau addysgu deallus yr ymarferwyr yn annog y plant i gydweithredu’n synhwyrol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth. Maent yn darparu gweithgareddau diddorol, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu eu medrau gwybyddol yn dda. Er enghraifft, maent yn herio’r plant i lenwi

esgidiau glaw â phridd i blannu blodau o gwmpas y sied ac adeiladu cestyll tywod bach, mawr a chanolig.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn effeithiol yn ystod gweithgareddau ac maent yn fedrus wrth gymell y plant i arbrofi wrth chwarae. Maent yn cynnal trafodaethau bwriadus gyda'r plant ar sut i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o’r plant yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn herio’r plant i ddarganfod y ffyrdd orau i lifo dŵr trwy boteli a chafnau ar wal ddŵr i osgoi gwastraffu’r hylif.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy’n cynnwys trafodaethau celfydd a pharodrwydd i ddilyn awgrymiadau a diddordebau’r plant yn llwyddiannus. Maent yn cyd-gynllunio’n fanwl i sbarduno dysgu’r plant trwy amrywiaeth o heriau ymarferol, fel adeiladu tyrau allan o olwynion i gyfatebu â’u huchder. Yn ogystal, maent yn defnyddio’r sgyrsiau meddylgar hyn a’u plethu gyda’u hasesiadau yn ddoeth i gynllunio camau nesaf pwrpasol yn nysgu plant unigol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ac yn ymestyn eu dealltwriaeth trwy eu holi’n ddestlus wrth chwarae. Gwneir hyn wrth i’r plant ddarlunio cywion sydd newydd ddeor, trwy greu marciau gyda sialc a chreonau, a’u herio i ddidoli a rhifo anifeiliaid y fferm yn yr ardal byd bach. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnig cyfleoedd cyson a rheolaidd i wella medrau digidol cynnar y plant.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus wrth eu hannog i symud cratiau i greu ceir ac i ddringo a llithro’n hyderus ar gyfarpar anturus. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol fel creu rhythmau gwahanol gyda seiloffon ac offer taro ar sosbenni. Yn ogystal, maent yn cymysgu dŵr, tywod a brigau yn y gegin fwd gyda’r plant i greu prydau gwahanol, ac yn eu hannog i chwarae rôl wrth wisgo fel archarwyr i yrru beiciau.

Mae’r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru’n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a chyfrannu i ddawnsfeydd a chaneuon eisteddfod y lleoliad. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn foddhaol trwy astudio arferion y Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd.

Mae’r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy drafodaethau llafar.

**Yr amgylchedd:**

Mae’r amgylchedd yn ddiogel ac yn lân iawn, ac o ganlyniad, mae'n hyrwyddo diogelwch a lles y plant yn briodol. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i’r adeilad ac mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Sicrheir bod yr asesiadau risg yn gyfredol ac mae’r arweinydd yn sicrhau bod yr offer diffodd tân a’r offer trydanol yn cael eu gwirio’n rheolaidd. Mae’r lleoliad yn cael ei lanhau’n ddyddiol ac mae'n cael ei gynnal a’i gadw’n dda.

Mae’r amgylchedd yn groesawgar ac ysgogol ac mae arddangosfeydd deniadol yn adlewyrchu gwaith a diddordebau'r plant. Yn ogystal, gwneir defnydd da o’r waliau i

hybu rhifedd a llythrennedd y plant wrth gofnodi eu presenoldeb, dyddiau'r wythnos a'r tywydd. Mae'r ymarferwyr yn arddangos gwaith y plant yn gelfydd, sy'n rhoi ymdeimlad o falchder ac o berthyn i'r plant. Er enghraifft, maent yn arddangos rocedi greodd y plant gan ddefnyddio gwahanol siapiau a lliwiau.

Mae'r amgylchedd yn gynhwysol iawn ac mae gan bob plentyn fynediad rhwydd a chyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Ceir amrywiaeth eang o adnoddau ymhob ardal ac mae'r holl gyfarpar a theganau o fewn cyrraedd y plant. Mae'r arweinwyr ac ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd yn llwyddiannus er mwyn hyrwyddo annibyniaeth, sy'n annog datblygiadau llwyddiannus yn nysgu'r plant.

Mae'r ardaloedd chwarae ysgogol fel yr ardal chwarae rôl a byd bach yn hyrwyddo dysgu plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn gallu golchi dillad yn y peiriant golchi a smwddio'r dillad yn hyderus. Yn ogystal, maent yn creu rhestrau siopa o'u gwirfodd eu hun yn y siop lysiau wrth wneud marciau, gan fod y papur a'r pensiliau ar gael ar gyfer yr holl blant. Mae'r bocsys adnoddau wedi eu labeli gyda llun a gair sy'n helpu'r plant gyda'u dealltwriaeth a'u llythrennedd. Mae hyn yn galluogi'r plant i wneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â'u chwarae. Mae'r ystafell synhwyraidd a'r adnoddau pwrpasol sydd ar gael yn atgyfnerthu datblygiad corfforol a lles y plant.

Mae'r amgylchedd yn caniatáu i'r plant symud yn ddiogel rhwng yr ardaloedd mewnol ac allanol. Mae'r arweinwyr wedi buddsoddi'n helaeth yn yr ardal tu allan ac mae'r ardal awyr agored yn cynnig cyfleoedd bendigedig i'r plant. Mae'r sied adeiladu, yr ysgubor gwneud marciau a'r caban tywod yn cynnig cyfleoedd gwych i'r plant ymgolli mewn gweithgareddau creadigol a dychmygol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod strategaethau arwain y lleoliad yn bwrpasol ac maent yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae eu gweledigaeth yn glir ac maent yn hybu cydweithio effeithiol ymysg yr ymarferwyr. O ganlyniad, mae eu hathroniaeth ddibynadwy yn creu amgylchedd diddorol, sy'n hybu dysgu'r plant yn fwriadus. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am ddigwyddiadau a newidiadau penodol o fewn y terfynau amser cywir.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol, ac yn gosod disgwyliadau synhwyrol ac maent yn cefnogi'r ymarferwyr i gynnal safonau uchel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Maent yn galluogi'r ymarferwyr i fynychu hyfforddiant bwriadus i wella'u haddysgu a'u harferion gofal. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn gydwybodol ac yn awyddus i lwyddo, trwy fabwysiadu awgrymiadau'r arweinwyr a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Fodd bynnag, nid yw'r arferion ar gyfer goruchwylio a gwerthuso gwaith yr ymarferwyr, yn gyson a sefydlog.

Mae'r arweinwyr yn canolbwyntio ar gyflwyno gwelliannau cyson er mwyn datblygu arferion y lleoliad ymhellach. Maent yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso effeithlon, sy'n arwain at dargedau defnyddiol ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella yn dda. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi canolbwyntio ar finiogi eu harferion asesu i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn well.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy’n ymwneud â’r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau effeithiol gyda’r holl randdeiliaid, fel yr asiantaethau cefnogi, i wella’r ddarpariaeth a phrofiadau’r plant. Er enghraifft, maent yn gweithredu ar gyngor i ddatblygu’r arferion cynllunio, er mwyn dilyn diddordebau’r plant yn well. Yn ogystal, maent yn cynnal trafodaethau cyson gyda’r rhieni a’r gofalwyr trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystyrlon.

Mae'r arweinwyr wedi ffurfio ystod o bartneriaethau cadarn yn lleol, sy’n cynnig profiadau difyr i’r plant. Er enghraifft, gwahoddwyd fan hufen iâ i’r lleoliad er mwyn dysgu’r plant i brynu nwyddau yn annibynnol wrth werthwyr. Mae’r berthynas gynhyrchiol gyda’r ysgol yn paratoi’r plant i’r cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol. O ganlyniad, mae’r arweinwyr yn sicrhau gofal bugeiliol llwyddiannus i’r plant, sy’n creu ymdeimlad o berthyn ymysg y plant a’r oedolion. Mae’r awyrgylch gadarnhaol hon yn cymell y plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu.

Mae’r arweinwyr yn dyrannu adnoddau’n llwyddiannus. Maent yn defnyddio’r gyllideb yn effeithiol a blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r lleoliad yn ddoeth. Er enghraifft, mae defnydd yr arweinwyr o grantiau a chefnogaeth cwmnïau lleol yn arloesol, sy’n sicrhau adeilad a darpariaeth glodwiw. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn ddeallus, fel yr ysgubor gwneud marciau a’r ystafell synhwyraidd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/07/2022